

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 15fed Medi 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cyngorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

46. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs E. M. Chard, A. J. Rutherford a Mrs M. Walker.

47. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 21ain Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 35-45

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDEFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 21ain Gorffennaf 2021 - Rhifau Cofnod 14-16

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 1af Medi 2021 - Rhifau Cofnod 17-20

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Medi 2021 - Rhifau Cofnod 26-37

Cynigiwyd gan y Cyngorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cyngorydd Mrs J. Chamberlain-Jones a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

48. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf ac yn benodol at y cyfarfod gyda Chomisynydd yr Heddlu a Throsedd, Uchel Siryf Clwyd a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth Heddlu a

Throseddu a Chyfeillion y Cob ar Marsh Road, a oedd yn ddifyr a chynhyrchiol iawn, fel y byddai'r Cynghorydd Prendergast yn ei nodi yn ddiweddarach ar y rhaglen.

49. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (2ain Awst ac 8fed Medi 2021)

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1235	Flying Colours Entertainment Limited	2,886.00	Artistiaid ar gyfer y September Sizzler
1236	Gunsmoke Communications	38.00	Hysbysebion a melysion ar gyfer September Sizzler
1237	Y Cyngh D. L. King	433.33	Lwfans y Maer 21/22 – taliad 2 o 3
1238	Y Cyngh J. L. McAlpine	133.34	Lwfans y Dirprwy Faer 21/22 – taliad 2 o 3
1239	Y Cyngh D. L. King	166.67	Lwfans Uwch Aelod 21/22 – taliad 2 o 3
1240	Y Cyngh J. L. McAlpine	166.67	Lwfans Uwch Aelod 21/22 – taliad 2 o 3
1241	Mr Magico (J E Hughes)	154.50	Pwnsh a Jiwdi ar gyfer September Sizzler
1242	Fool's Paradise Ltd	2,756.40	Artistiaid ar gyfer September Sizzler
1243	Batala Bangor	447.00	Band Batala ar gyfer September Sizzler
	Cyfanswm Taliadau	£7,181.91	

PENDERFYNNWYD cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

50. CYFEILLION Y COB

Ymhellach i gofnod rhif 91 cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Rhagfyr 2017, gwahoddodd y Maer y Cynghorydd P. Prendergast i roddi adroddiad cynnydd i'r aelodau.

Hysbysodd y Cynghorydd Prendergast y cyfarfod bod y grŵp wedi bod yn rhedeg ers mis Mai 2018 ac wedi ei greu ers casgliad y fenter Cymunedau yn Gyntaf.

Atgoffodd y Cynghorydd Prendergast yr aelodau bod £178 y Cyngor Tref i dalu am ddau aelod i ymweld â'r safle uwchgyrchu yn Llundain i weld menter

lwyddiannus yn gweithio a dod â syniadau yn ôl, yn anffodus heb symud ymlaen gan nad oedd yn ariannu ei hunan.

Ers hynny, roedd y grŵp wedi sefydlu gwasanaeth galw heibio a 'man diogel' yn cynnig help a chymorth ymarferol ynghyd ag atgyfeirio unrhyw un a oedd yn syrthio rhwng pecynnau cymorth ffurfiol. Pobl a oedd angen cwmni a help i feithrin eu hyder, er enghraifft.

Roedd hyn wedi ehangu ymhellach ac wedi datblygu'n lle a oedd yn cynnig defnyddio cyfrifiaduron (gyda thri ar gael) a gweithdy ar gyfer gwaith coed, gan bartneru gydag asiantaeth hyfforddiant a hyfforddi unigolion i lefel NVQ.

Ychwanegodd y Cynghorydd Prendergast bod 2020 wedi bod yn arbennig o anodd yn ariannol, fel yr oedd wedi bod i lawer, ac mai'r unig grant a sicrhawyd yn llwyddiannus oedd un gan y Loteri Genedlaethol, ac mae'r pren maent yn ei ddefnyddio yn cael ei ddarparu gan gomisiwn coedwigaeth lleol.

Roedd y prosiect hefyd yn tyfu planhigion ac yn gobeithio ymestyn eu gallu i dyfu i gynnwys llysiau o hadau, a byddai'n rhoi hadau i fanc bwyd lleol er mwyn i bobl dyfu rhai eu hunain, drwy gyffwrng pecyn plannu bychan i ddechreuwr.

Yn ddiweddar, roeddynt wedi cael ymweliad gan yr Uchel Siryf, ac ati, fel y nodwyd gan y Maer yn gynharach, a oedd wedi arwain at arweiniad grant arall a gweithio gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych.

Roedd ymweliad arall ar y gweill gan Brif Weithredwr CSDd, Mr Graham Boase a'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, Mr Emlyn Jones, ac roeddynt yn gobeithio y byddai ITV Wales yn dod draw i wneud darn ar gyfer newyddion amser te.

Roedd gan y gweithdy do newydd nawr gyda phaneli solar yn darparu trydan am ddim.

Roedd y prosiect yn un gwerth chweil ac roedd tri prentis yno nawr.

Gwahoddodd y Cynghorydd Prendergast yr aelodau i fynd draw i weld Cyfeillion y Cob a'u gwaith drostynt eu hunain, ac y dylai unrhyw un a oedd eisiau mynd drefnu ymweliad trwyddo fo.

Menw ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd y Cynghorydd Prendergast:

- Roedd hyfforddiant manwerthu ar gyfer gwerthu cynnyrch wedi ei gynllunio at y dyfodol.
- Bod detholiad o fyrddau bwydo adar ar gael.
- Y byddant yn chwilio am dri prentis arall. Dynion neu ferched ac nid gadawyr ysgol yn unig. Byddai croeso i rai o unrhyw oedran wneud cais.
- Roedd y prentisiaethau yn cael eu hysbysebu mewn ysgolion a chanolfannau gwaith.

Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Prendergast am ei adroddiad.

51. YMGYNGHORIAD: FFERM WYNT ODDI AR Y TIR AWEL Y MOR

Adroddidd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gyda'r ygyngoriad llawn ar gael arlein yn awelymor.cymru

Dyweddodd Clerc y Dref nad oedd yn debygol y byddai'r fferm wynt yn cael ei lleihau mewn maint ac y byddai trydan yn dod drwy geblau yn dod i'r tir i'r dwyrain o'r Rhyl (ar ymyl Ward Brynhedydd) ac yn teithio ymlaen i'r orsaf ym Modelwyddan.

Anogodd Clerc y Dref yr aelodau i gwblhau'r holiadur arlein.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Awel Y Mor i gyfleu siom y Cyngor Tref nad oedd cronfa gymunedol wedi ei chynllunio fel yr oedd wedi digwydd gyda gweithredwyr ffermydd gwynt eraill yn hyr ardal.

52. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan gynnwys ffurflen Prosiectau Cyfalaf i'r aelodau ei chwblhau a'i chyflwyno yn unigol.

Awgrymodd Clerc y Dref bod yr aelodau yn ystyried cefnogi un prosiect i wneud achos cryfaf, a dywedodd bod y Cynghorydd Mrs J. Butterfield wedi awgrymu Cynllun Marchnad y Frenhines?

Awgrymodd y Cynghorydd T. Thomas y gallai'r Stryd Fawr fod yn un arall i'w ystyried gan ei fod yn eithaf hyderus bod cynllun Marchnad y Frenhines wedi sicrhau'r holl gyllid a oedd ei angen i'w gwblhau.

PENDEFYFNWYD bod yr aelodau yn cyflwyno eu prosiectau unigol eu hunain.

53. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLWG O ETHOALETHAU SENEDDOL 2023

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr uchod (map yn dangos yr etholaeth bresennol a'r un arfaerthedig, a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd bod y Comisiwn Ffiniau wedi lansio ymgynghoriad arlein yn bcw-reviews.org.uk mewn perthynas â'r newidiadau arfaerthedig a fyddai'n arwain at etholaeth Dyffryn Clwyd yn dod i ben gyda'r Rhyl yn syrthio o fewn etholaeth newydd Clwyd.

Dyweddodd Clerc y Dref bod Llywodraeth y Du wedi penderfynu y dylid gostwng nifer yr ASau yng Nghymru o 40 i 32, ac mai tasg y Comisiwn Ffiniau oedd penderfynu sut dylid trefnu ffiniau'r etholaethau newydd.

Yn syml, mae'n rhannu poblogaeth Cymru fel bod pob etholaeth yn cynnwys rhwng wyth etholwr, ac yn seilio eu cynigion ar y wardiau presennol ar niferoedd yn unig.

Bydd hyn yn arwain at etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd yn cael ei rhannu yn dair o rai newydd, 'Clwyd', 'Delyn' a 'Sir Drefaldwyn a Glyndwr'.

Byddai'r Rhyl yn dod o fewn etholaeth Clwyd ynghyd â Bodelwyddan, Dinbych, Rhuddlan a Llanelwy, ac y byddai'n ymestyn ar hyd yr arfordir i Fae Colwyn gydag etholaeth o 76,380 (ar ochr uchaf y gofyniad). Byddai 40,482 o'r rhain yn etholwyr Sir Ddinbych.

Byddai Dyserth, Prestatyn a Rhuthun yn ffurfio rhan o etholaeth Delyn.

Mae'r Comisiwn yn gofyn am farn pobl ar eu cynigion a'r ffactorau y byddant yn eu hystyried yw:

- Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn arbennig maint a siâp
- Hygyrchedd etholaethol
- Ffiniau Llywodreth Leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1af Rhagfyr 2020
- Ffiniau etholaethau presennol
- Unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gyda newidiadau mewn etholaethau
- Yr anghyfleustra a fyddai'n deillio o newidiadau o'r fath

Yr hyn na fyddant yn ei ystyried yw'r effaith y caiff y newidiadau ar bleidiau gwleidyddol.

Ymhellach, byddai effaith y cynigion yn golygu y byddai'r cysylltiadau presennol rhwng y Rhyl a Phrestatyn yn cael eu torri ac nid yw'n debygol y byddai Sir Ddinbych yn brif Gyngor mewn unrhyw un o'r etholaethau newydd.

Teimlai'r aelodau y gellid gwneud dadl gref o gwmpas y cysylltiadau cryf a'r cydlyniant rhwng y Rhyl a Phrestatyn ar hyn o bryd a'i bod yn ymddangos bod y Rhyl wedi ei grwpio gyda mynyddoedd lle mae mwy yn gyffredin gyda Thowyn, Cinmel a Gronant?

PENDERFYNWYD bod yr aelodau yn eostio eu barn i Glerc y Dref er mwyn iddo eu casglu at ei gilydd ac adeiladu ymateb o gwmpas hynny.

54. EITEM GAN AELOD: TALIADAU PARCIO CEIR YNGH NGHANOL Y DREF

Awgrymodd Clerc y Dref ohirio'r eitem gan nad oedd y Cynghorydd A. S. Johnson yn bresennol.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol.

55. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad:

Commented [t1]: